CYNGOR TREF NEFYN

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 11/03/2025 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Gito Williams | Wil Lake | Catrin Roberts | Gwynfor Jones |
| Gruffydd Willliams | Lleucu Jones | Alaw Llewelyn Roberts | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Rhian Sanson | Pat Humphreys (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Iwan Evans, Caren Jones, Rhys Llewelyn a Carys Roberts.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Mared Llywelyn Williams – eitem 4.3

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 11/02/2025
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Gwynfor Jones  Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

4. **Unrhyw Fater Brys**
   1. **Dyfynbrisiau cais grant AHNE i ail wynebu'r llwybrau cyhoeddus**
      Mae'r Clerc wedi derbyn un dyfynbris ar gyfer y gwaith yma er iddi anfon y briff i ddau gontractwr.
      Penderfyniad: pasiwyd i dderbyn y pris a gyflwynwyd.
      Cynnig: Gwynfor Jones  Eilio: Arfon Hughes
      Pasiwyd hefyd i gyflwyno'r ffurflen gais am grant AHNE Llŷn i fewn a gofyn am 50% o'r dyfynbris a cytunodd bawb fod CTN yn talu'r 50% arall.
      Cynnig: Gruffydd Williams  Eilio: Catrin Roberts
   2. **Biniau y tu allan i Caffi Becws Islyn ger Traeth Nefyn –** Iwan Evans
      Mae dau aelod CTN wedi cyfarfod perchennog Caffi Becws Islyn i drafod y mater yma ac yn cefnogi'r cais gan y perchennog i Cyngor Gwynedd roi biniau ger y traeth yn Nefyn.
      Penderfyniad: y Clerc i drefnu cyfarfod rhwng perchennog Caffi Becws Islyn Nefyn, Cyngor Gwynedd, aelod lleol Nefyn a cynrychiolwyr CTN i geisio cael datrusiad i'r broblem.
      Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Gruffydd Williams
   3. **Deddf Eiddo Cymdeithas yr Iaith –** Cadeirydd
      Derbyniwyd cais am gefnogaeth i'r alwad gan Cymdeithas yr Iaith am Ddedf Eiddo fel mae Cyngor Cymuned Blaenau Ffestiniog wedi ei wneud yn eu cyfarfod diwethaf. Gofynwyd am ystyriaeth yn arbennig i nôd 1 a 2 o'r Ddeddf honno fel polisi'r Cyngor sef:
      1. Hawl i gartrefi lleol

2. Cynllunio ar gyfer anghenion lleol pan yn trafod cynllunio adeiladu tai i'r dyfodol.
Penderfyniad: rhoi'r mater ar agenda mis nesaf i'r aelodau gael amser i feddwl a gwrando ar yr areithiau yn y rali sydd ddiwedd y mis yn Nefyn.
Cynnig: Alaw Llewelyn Roberts Eilio: Gareth Jones

4. **Sedd Wag –** Cadeirydd
Mae'r Is-gadeirydd yn ymddiswyddo ac yn symud dramor i fyw. Diolchwyd iddi am ei gwaith fel aelod CTN, fe fydd colled mawr ar ei hôl, a dymunodd bawb yn dda iddi. Mae'r Clerc am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ddecharu'r broses o lenwi'r sedd wag.

5. **Postiadau sy'n defnyddio Saesneg yn gyntaf ar eu platfformau cyfryngau cymdeithasol –** Catrin Roberts
Mae nifer o'r aelodau yn bryderus am y postiadau ar facebook yn ddiweddar gan fusnesau lleol sy'n defnyddio'r Saesneg yn gyntaf, mae rhain yn fusnesau Cymraeg sy'n rhoi blaenoriaeth i'r Saesneg ac mae hyn yn mynd yn fwy cyffredin felly tybed os oes rhywbeth y gellir ei wneud gan CTN i fynegi pa mor siomedig yw hyn. Awgrymwyd y dylid cysylltu hefo Menter Iaith Gwynedd a gwneud rhywbeth ar y cŷd hefo nhw mewn ffordd gyfeillgar ac mae'r Cadeirydd wedi cynnig mynd ar ôl hyn.

6. **Llwybr Cliffs – gorffen y gwaith ym mis Mai –** Gruffydd Williams
Cais yw hwn i gael cario mlaen i orffen y gwaith sydd wedi ei gychwyn ar llwybr Cliffs, mae llwybr newydd wedi ei greu ond nid oes caniatad i fynd i fewn i faes parcio'r Cliffs felly mae'r llwybr newydd yn gorffen wrth ffens y maes parcio. Oherwydd sefyllfa ariannol CTN ar y funud nid oes modd ariannu'r gwaith o agor mynedfa newydd i'r llwybr presennol a cau mynedfa'r hen lwybr felly unwaith y bydd arian wedi dod i fewn, ym mis Mai, y bwriad yw cario ymlaen hefo'r gwaith yma a gorffen y llwybr newydd.
Penderfyniad: pasiwyd i orffen y gwaith ar y llwybr newydd ym mis Mai.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Catrin Roberts

7. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
   1. **Ebost Robert Davies –** cychod gwenyn
   Penderfyniad: Gofyn am fwy o wybodaeth erbyn y pwyllgor nesaf a ceisio cael yr union lleoliad bwriededig.

8. **Ceisiadau Cynllunio**
Dim.

9. **Ceisiadau Diweddarach**
Dim.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

CYNGOR TREF NEFYN

# <u>COFNODION</u> Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 11/03/2025 am 7yh

**10. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1407.78 (taliad Bacs)
- Nefyn Foods Ltd – rent Siop Siarad - £780.00
- Chris Jones – gosod a tynnu'r coed nadolig - £1440.00
- Un Llais Cymru – tâl aelodaeth 2025-2026 - £654.00
- D M Parry – pedwerydd taliad mynwent Edern a taliad cyntaf mynwent Morfa Nefyn - £750.00
- HMRC – PAYE mis 12 - £278.53
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £49.55
- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Chwefror - £183.47

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

**11. Taliadau wedi eu derbyn**

- Ifan Hughes – angladd Catherine Junia Owens - £1085.00
- Ifan Hughes - angladd Esther Rowlands a Ernest Jones - £1560.00
- Ifan Hughes – angladd Menai Griffiths - £780.00
- G D Roberts – angladd Joan Jones, Gareth Parry a Brian John Owen - £3130.00

<u>Y llwybr lawr i traeth Nefyn</u>
Mae'r aelod lleol wedi derbyn cwynion ynglŷn â'r llwybr yma yn lleisio pryderon fod y perchnogion am arall gyfeirio'r llwybr. Mae'r Clerc am gysylltu hefo'r adran gynllunio i gael eglurhad ganddynt.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com